

Iddyn Nhw

Pecyn Cymorth i Randdeiliaid



Llywodraeth Cymru
Welsh Government




Cyflwyniad

Wedi'i dorri'n rheolaidd, efallai y bydd glaswellt wedi ei dorri yn fyr yn edrych yn daclus – ond nid yw'n fawr o fudd i fywyd gwyllt. Bydd llai o dorri gwair ar ymylon ffyrdd a glaswellt ar safleoedd amwynderau yn caniatáu i laswellt a blodau gwyllt dyfu.

Mae hyn yn creu cynefin gwell ar eu cyfer 'Nhw': infertebratau, adar, mamaliaid bach, amffibiaid ac ymlusgiaid.

Dyna pam yr ydym yn lansio ein hymgyrch 'Iddyn Nhw'. Ein nod yw cynyddu ymwybyddiaeth pobl sy'n rheoli torri glaswellt a'r cyhoedd o fanteision torri llai a chreu bioamrywiaeth iach. Mae angen eich cefnogaeth arnom i wneud hyn yn llwyddiant ac rydym wedi creu'r pecyn cymorth hwn a'r asedau sydd ynddo i chi eu defnyddio i hyrwyddo'r ymgyrch.



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae natur yn hardd ac ni allwn oroesi hebdo. Mae ein hamgylchedd naturiol yn dirywio ac felly hefyd y manteision y mae'n eu sicrhau. Mae bioamrywiaeth yn elfen sylfaenol hanfodol o'r holl ecosystemau gwydn ac mae'n hanfodol i'n lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Rydym mewn argyfwng natur. Mae ein bywyd gwyllt yn lleihau ac mae angen i ni weithredu nawr i'w achub. Mae bioamrywiaeth yn lleihau yn fyd-eang ar gyfraddau nas gwelwyd o'r blaen yn hanes dynoliaeth. Mae 1 o bob 6 rhywogaeth a asesir yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Collwyd 97% o ddolydd glaswelltir iseldir traddodiadol yng Nghymru a Lloegr rhwng 1930-87.

Gall newid sut mae glaswellt yn cael ei dorri, dros amser, greu mwy o ddolydd sy'n llawn blodau gwyllt brodorol mewn ardaloedd amwynderau ac ar hyd ochrau ffyrdd. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd drwy gefnogi bywyd gwyllt, gwella cysylltedd ecolegol, storio mwy o garbon yn ein priddoedd a meithrin mwy o wytnwch i wrthsefyll newid amgylcheddol.

Efallai mai ymylon ffyrdd neu laswelltiroedd amwynderau yw'r unig gyswllt rheolaidd sydd gan rai pobl yng Nghymru â natur. Bydd cael mwy o ardaloedd blodau gwyllt brodorol yn gwella cymeriad lleol, nodweddion gweledol a'n hiechyd a'n lles.

Gall newid sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn torri glaswellt helpu i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol o dan adran 6 dyletswydd bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.



Sut y gallwch chi helpu

Hoffem i chi ymuno â'r ymgyrch 'Iddyn Nhw' ac addasu sut rydych chi'n torri'ch glaswellt i wneud ymylon ffyrdd a glaswelltiroedd amwynderau yn fwy cyfeillgar i fywyd gwylt.

Rydym am gael eich help i ledaenu'r gair am yr ymgyrch 'Iddyn Nhw' drwy rannu cynnwys â'ch rhwydweithiau. Gyda'ch cefnogaeth chi, gallwn annog mwy o bobl i dorri llai o'r glaswellt a helpu i achub ein bioamrywiaeth.

Rydym wedi cynnwys awgrymiadau ar gyfer negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn y pecyn hwn. Os ydych chi'n rhannu negeseuon, tagiwch ni a chynnwys ein hashnod **#IddynNhw**

Hefyd, os nad ydych chi'n gwneud hynny'n barod, gallech chi ddilyn a'n hoffi ni ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol hyn:

 @WGClimateChange

 @llywodraethcymru



Deunydd Ymgyrchu

Mae gennym set o deunydd i hyrwyddo'r ymgyrch ac annog pobl i gymryd rhan.

Mae'r adnoddau ymgyrchu ar gyfer rhanddeiliaid ar gael yn:

<https://wales.assetbank-server.com/assetbank-wales/images/assetbox/a99b726b-6860-449f-831a-59ca9bc77e1d/assetbox.html>

Mae amrywiaeth o gyrff a sefydliadau yng Nghymru'n gallu bod yn gyfrifol am ymylon ffyrdd a mannau gwyrdd. Mae lle ar y deunydd ymgyrchu i chi ychwanegu'ch logo, eich gwefan a'ch manylion cysylltu. Mae'n bwysig eich bod yn ychwanegu'ch manylion er mwyn i bobl ddeall pwy sy'n gyfrifol am eu glaswelltir lleol.

Mae'r adnoddau'n cynnwys:

- Negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
- Templedi arwyddion y gallwch eu hargraffu (ac ychwanegu'ch logos a'ch manylion atynt), yn addas ar gyfer sawl sefyllfa, ac ar gael ar ffurf 'portrait' a 'landscape', mewn sawl maint:
 - Ymylon ffyrdd (A4, A3 and A2)
 - Gofod gwyrdd bach (A4, A3 and A2)
 - Gorfod gwyrdd mwy a dulliau amrywiol o reoli'r borfa (A3, A2 ac A1)
 - Gofod gwyrdd mwy yn cael ei rheoli fel dŵl (A3, A2 ac A1)
- Templed ffeithlun (i chi gael ychwanegu'ch logos a'ch manylion ato)
- Taflen fer ac ychydig o Gwestiynau Cyffredin (ychwanegwch eich logos a'ch manylion)

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i greu 'natur ar stepen eich drws'. Un o amcanion Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yw gwella glaswelltir er lles bioamrywiaeth. Mae'n rhoi arian ar gyfer prosiectau cyfalaf i reolwyr tir di-elw yng Nghymru, er enghraifft:

- awdurdodau lleol
- cynghorau cymuned a thref
- cymdeithasau tai
- ysgolion
- y GIG
- eraill sy'n rheoli glaswelltir di-elw

I helpu pobl i weithredu, mae Cydgysylltwyr Partneriaethau Natur Lleol (LNP) yn cynnal gweithgareddau gyda chymorth Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn eich ardal. Mae darparu arwyddion a gwybodaeth yn gost gymwys ar gyfer prosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur sydd o dan arweiniad cydgysylltydd LNP. Trafodwch â'ch cydgysylltydd LNP chi i weld a yw hyn yn gymwys i'ch prosiect chi.

Negeseuon Ymgyrchu

Ydych chi wedi sylwi nad yw'r borfa ar ymylon eich ffyrdd ac yn eich parciau lleol ac ati wedi'i thorri'n ddiweddar? Mae rheswm am hynny! Sef iddyn nhw – i ddiogelu a helpu bywyd gwyllt [#IddynNhw](#)



Ydych chi wedi gweld un o'r arwyddion hyn ar ymyl ffordd neu barc lleol? Cafodd ei godi iddyn nhw. I ddiogelu bywyd gwyllt, ni fyddwn yn torri'r borfa tan ddiwedd yr haf [#IddynNhw](#)[\[link to sign image\]](#)

{Add website URL}



I ddiogelu a helpu bywyd gwyllt, efallai na fyddwn yn torri'r borfa ar ymylon eich ffyrdd a'ch parciau lleol ac ati tan ddiwedd yr haf [#IddynNhw](#).

Dysgwch fwy yma:[\[infographic\]](#)



Oeddech chi'n gwybod, nid yw porfa sydd wedi ei thorri'n fyr o fawr o werth i fywyd gwyllt? Dyna pam nad ydym wedi torri'r borfa ar ymylon eich ffyrdd lleol y mis yma. [#IddynNhw](#)



Er bod porfa sydd wedi'i thorri'n rheolaidd yn edrych yn dwt, mae'n ddiwerth i fyd natur. Dros yr haf, ni fyddwn yn torri'r borfa ar ymylon ffyrdd er mwyn helpu bywyd gwyllt. [#IddynNhw](#)



Mae hi'n argyfwng ar fyd natur a rhaid gwneud rhywbeth nawr. Dyna pam y gwelwch chi fod y borfa ar ymylon ffyrdd ac mewn parciau lleol ac ati heb ei thorri er mwyn creu cynefinoedd gwell i fywyd gwyllt. [#IddynNhw](#)

